# Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013

**2013 dccc 5**

*Hyrwyddo trawsblannu*

### 2 Dyletswydd Gweinidogion Cymru i hyrwyddo trawsblannu

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) hyrwyddo trawsblannu fel modd i wella iechyd pobl Cymru,

(b) darparu gwybodaeth am drawsblannu a chynyddu ymwybyddiaeth ohono,

(c) hysbysu'r cyhoedd am yr amgylchiadau lle yr ystyrir bod cydsyniad wedi ei roi i weithgareddau trawsblannu yn absenoldeb cydsyniad datganedig, a

(d) sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael i Fyrddau Iechyd Lleol yn cynnwys y cymwyseddau a'r sgiliau arbenigol sy'n ofynnol at ddibenion y Ddeddf hon.

(2) Mae'r ddyletswydd o dan is-adran (1) yn cynnwys, yn benodol, rwymedigaeth ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo, o leiaf unwaith bob 12 mis, ymgyrch i hysbysu'r cyhoedd ledled Cymru am yr amgylchiadau lle yr ystyrir bod cydsyniad i weithgareddau trawsblannu wedi ei roi yn absenoldeb cydsyniad datganedig.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru, am y pum mlynedd gyntaf ar ôl i'r adran hon ddod i rym, adrodd yn flynyddol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar y camau a gymerwyd i gyflawni eu dyletswyddau o dan is-adran (1).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 2 mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 21(4)(b)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013, Adran 2.